**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julie James AS
Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni

24 Medi 2025

Annwyl Julie

Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Gorffennaf 2025 ynghylch gwaith craffu’r Pwyllgor ar fersiwn ddrafft Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 (y Gorchymyn). Nodwn eich sylwadau.

Mae'r Pwyllgor yn unfrydol yn ei farn nad mater i Lywodraeth Cymru yw awgrymu sut y dylai Pwyllgor y Senedd arfer ei swyddogaeth graffu a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Yn benodol, o ran cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig, fel y Pwyllgor sy'n gyfrifol am graffu ar faterion cyfansoddiadol, mae'n gyfreithlon i'r Pwyllgor holi Llywodraeth Cymru am y pwnc hwn ac i wneud hynny ochr yn ochr â'n gwaith craffu ar y Gorchymyn; rydym o'r farn bod y ddau fater yn berthnasol i Etholiadau'r Senedd.

Yn eich llythyr rydych yn nodi:

> *"Rwy’n bryderus bod y Pwyllgor wedi canolbwyntio ar fân bwyntiau drafftio a theipograffyddol, a mân anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg a bod hyn yn lleihau ei rôl graffu ehangach a phwysicach. Cafodd hyn effaith niweidiol ar ansawdd y ddadl ar y Gorchymyn hwn gan mai hyn, yn hytrach na chynnwys y Gorchymyn, oedd pwnc trafod pennaf y trafodion."*

Mae adrodd ar anghysondebau drafftio ac ieithyddol yn cyflawni ein rhwymedigaethau o dan Reol Sefydlog 21.2 ac felly dylai Llywodraeth Cymru ddisgwyl i aelodau'r Pwyllgor hwn siarad am faterion o'r fath yn y ddadl. Rydym yn cydnabod y manteision y mae'r Gorchymyn yn eu cyflwyno o ran mwy o hygyrchedd a'i ddwyieithrwydd; fodd bynnag, mae effaith negyddol ar yr hygyrchedd a’r dwyieithrwydd hynny yn y pwyntiau a godir yn ein hadroddiad, ac ar gyfer Gorchymyn mor bwysig roedd y materion a godwyd gennym yn faterion o bryder gwirioneddol.

Byddwch yn ymwybodol y bydd Gwasanaethau Cyfreithiol y Senedd, wrth ddarparu adroddiad drafft i Lywodraeth Cymru ar offeryn statudol penodol, (lle bo hynny'n briodol), yn darparu unrhyw bwyntiau ychwanegol i'w hystyried nad ydynt yn bodloni'r trothwy ar gyfer adrodd ond a allai fod o gymorth i'r llywodraeth. Darperir pwyntiau o'r fath mewn ysbryd o gydweithredu ac ymdrech ar y cyd i gynhyrchu corff cadarn o gyfraith ar gyfer Cymru. Gan nad yw'r pwyntiau ychwanegol hyn yn rhan o waith craffu ffurfiol y Pwyllgor, ni chânt eu crybwyll fel arfer, mewn adroddiadau Pwyllgorau a osodir gerbron y Senedd. Fodd bynnag, ochr yn ochr â'n hadroddiad drafft ar y Gorchymyn drafft a oedd yn cynnwys 42 pwynt adrodd, byddwch yn sicr yn gwybod bod 86 pwynt ychwanegol, nad oeddent yn bodloni'r trothwy adrodd, wedi'u tynnu i sylw Llywodraeth Cymru.

Fe wnaethoch hefyd gyfeirio at arfer Cyd-bwyllgor Senedd y DU ar Offerynnau Statudol. Mabwysiadodd rhagflaenydd ein Pwyllgor, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ddull tebyg tan 2018. Yn hytrach, drwy eithriad, caiff gwiriadau anffurfiol eu cynnal bellach gan ein swyddogion ar ddim ond offerynnau sy'n cael eu hystyried yn hir, yn newydd neu'n gymhleth. O ystyried arwyddocâd cyfansoddiadol a chymhlethdod y Gorchymyn, rhoddwyd sylwadau anffurfiol i Lywodraeth Cymru ar y Gorchymyn drafft 11 wythnos cyn i'r adroddiad drafft gael ei anfon yn ffurfiol.

Mae ein rôl graffu yn canolbwyntio ar gydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan y Rheolau Sefydlog ac, yn ehangach, helpu i sicrhau bod offerynnau statudol dwyieithog yn gywir, yn hygyrch ac nad oes gan y darllenydd unrhyw amheuaeth ynghylch eu hystyr.

Mae'r Pwyllgor hwn wedi parhau i fynegi pryderon am nifer yr anghywirdebau mewn deddfwriaeth a osodir gerbron y Senedd; felly, byddem yn croesawu cyfarfod i drafod sut y gellid gwella'r sefyllfa hon.

Anfonir copïau o'r llythyr hwn at y Llywydd ac at y Prif Weinidog.

Yn gywir,

Mike Hedges

Mike Hedges
Cadeirydd